# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion **Cyfarfod Blynyddol** Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 15 Gorffennaf 2024 yn rhithiwr trwy Zoom. Dechreuodd y cyfarfod am 9.30am.

**YN BRESENNOL**

| **Cynghorydd** | **Yn Cynrychioli** |
|---|---|
| Dylan Rees-Cadeirydd | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Paul Cunningham-Dirprwy (o 09:40) | Cyngor Sir y Fflint |
| Marion Bateman | Cyngor Sir y Fflint |
| Tina Claydon | Cyngor Sir y Fflint |
| Adele Davies-Coke (o 09:47) | Cyngor Sir y Fflint |
| Sharon Doleman | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Jeff Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Chrissy Gee | Cyngor Sir y Fflint |
| Alan Hughes | Cyngor Sir Ddinbych |
| John Brynmor Hughes | Cyngor Gwynedd |
| Gareth R Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Marc Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Gwynfor Owen | Cyngor Gwynedd |
| Beverley Parry-Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Arwyn Herald Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Austin Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Rondo Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Paul Rogers | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Gareth Sandilands | Cyngor Sir Ddinbych |
| Dale Selvester | Cyngor Sir y Fflint |
| Michelle Walker | Cyngor Sir Ddinbych |
| Mark Young | Cyngor Sir Ddinbych |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Dawn Docx | Prif Swyddog Tân (PST) |
| Helen MacArthur | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC) |
| Justin Evans | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC) |
| Anthony Jones | Rheolwr Ardal (RhA) |
| Dafydd Edwards | Trysorydd |
| Gareth Owens | Clerc a Swyddog Monitro |
| Matthew Powell | Dirprwy Glerc a Swyddog Monitro |
| Lisa Allington | Cynorthwyydd Gweithredol |
| Tracey Williams | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol |
| George Jones | Gwasanaethau Cyfieithu Atebol |

## 1 YMDDIHEURIADAU

| **Cynghorydd** | **Yn Cynrychioli** |
|---|---|
| Rob Triggs | Cyngor Gwynedd |
| Gareth A Roberts | Cyngor Gwynedd |

| | |
|---|---|
| Carol Beard | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

**ABSENNOL**

| **Cynghorydd** | **Yn Cynrychioli** |
|---|---|
| Bryan Apsley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Chris Hughes | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| John Ifan Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |

Cynigiwyd a derbyniwyd yr ymddiheuriadau uchod.

## 2 PENODI CADEIRYDD 2024/25

2.1 Gofynnodd y Clerc am enwebiadau ar gyfer swydd Cadeirydd yr Awdurdod am flwyddyn y cynghorau 2024/25.

2.2 Cynigiodd y Cynghorydd Austin Roberts y Cynghorydd Dylan Rees ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Jeff Evans.

2.3 Ni dderbyniwyd unrhyw wrth-enwebiadau a chynhaliwyd pleidlais electronig i bawb o blaid ailethol y Cynghorydd Dylan Rees yn Gadeirydd.

2.4 **PENDERFYNWYD yn unfrydol bod y Cynghorydd Dylan Rees yn cael ei ethol yn Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru am flwyddyn cynghorau 2024/25.**

2.5 Manteisiodd y Cynghorydd Rees ar y cyfle hwn i ddiolch i'r Aelodau am eu cefnogaeth, o ran y Gadeiryddiaeth a'r heriau a brofwyd dros y deuddeg mis diwethaf. Roedd her yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys yn parhau a byddai materion eraill fel gosod y gyllideb, yr Adolygiad Diwylliant a'r penderfyniad ynghylch y Ganolfan Hyfforddi Newydd hefyd yn cyflwyno eu heriau eu hunain.

## 3 DATGANIADAU BUDDIANT

Datganwyd buddiant personol gan y Clerc ar ran yr holl Aelodau ar gyfer yr eitem tâl.

## 4 PENODI DIRPRWY GADEIRYDD 2024/25

4.1 Aeth y Cadeirydd ymlaen i geisio enwebiadau ar gyfer swydd Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod am flwyddyn y cynghorau 2024/25.

4.2 Cynigiodd y Cyng. Gareth Sandilands y Cyng. Paul Cunningham a chafodd ei eilio gan y Cyng. Tina Claydon.

4.3 Ni dderbyniwyd unrhyw wrth-enwebiadau a chynhaliwyd pleidlais electronig i bawb o blaid ailethol y Cynghorydd Paul Cunningham yn Ddirprwy Gadeirydd.

4.4 **PENDERFYNWYD bod y Cynghorydd Paul Cunningham yn cael ei ethol yn Ddirprwy Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru am flwyddyn y cynghorau 2024/25.**

**5 PENODI CADEIRYDD A DIRPRWY GADEIRYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO 2024/25**

5.1 Dywedodd y Clerc wrth y rhai a oedd yn bresennol y bu gwahaniaeth mewn arfer ar hyd y blynyddoedd mewn perthynas â phenodi Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio oherwydd afreoleidd-dra o fewn y Cyfansoddiad. Felly cynigiwyd diwygio'r Cyfansoddiad i nodi bod Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn cael ei ethol yn y cyfarfod Blynyddol. Byddai hyn yn golygu bod pob Aelod wedi cael cyfle i bleidleisio.

5.2 **PENDERFYNWYD:**

i) **Bod Cadeirydd/Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn cael ei benodi gan yr Awdurdod llawn a bod y cyfansoddiad yn cael ei newid i adlewyrchu hyn; a**
ii) **Bod yr Awdurdod yn penodi Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio ar gyfer 2024/25.**

5.3 Gofynnodd y Cadeirydd am enwebiadau ar gyfer swydd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio am flwyddyn y cynghorau 2024/25.

5.4 Cynigiodd y Cyng. Jeff Evans ailethol y Cyng. Mark Young fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ac eiliwyd hyn gan y Cyng. Austin Roberts.

5.5 Ni dderbyniwyd unrhyw wrth-enwebiadau a chynhaliwyd pleidlais electronig i bawb o blaid ailethol y Cyng. Mark Young yn Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio.

5.6 **PENDERFYNWYD:**

iii) **Ethol y Cynghorydd Mark Young i wasanaethu fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio am flwyddyn y cynghorau 2024/25.**

5.7 Gofynnodd y Cadeirydd am enwebiadau ar gyfer swydd Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio am flwyddyn y cynghorau 2024/25.

5.8 Cynigiodd y Cyng. Austin Roberts ailethol y Cyng. Gwynfor Owen fel Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio ac eiliwyd hyn gan y Cyng. Jeff Evans.

5.9 Ni dderbyniwyd unrhyw wrth-enwebiadau a chynhaliwyd pleidlais electronig i bawb o blaid ailethol y Cyng. Gwynfor Owen yn Ddirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio.

5.10 **PENDERFYNWYD:**

**iv) Ethol y Cynghorydd Gwynfor Owen i wasanaethu fel Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio am flwyddyn y cynghorau 2024/25.**

**6 HYSBYSIAD O FATERION BRYS**

6.1 Cadarnhawyd nad oedd unrhyw eitemau wedi'u cyflwyno i'r Clerc i'w hystyried.

**7 PWYLLGORAU A PHENODIADAU**

7.1 Cyflwynodd y Clerc y papur ar y Penodiadau i Bwyllgorau a Chyrff Allanol, gyda'r nod o wahodd Aelodau i nodi aelodaeth Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) a'i bwyllgorau a oedd wedi newid ers y llynedd. Y pwrpas arall oedd nodi'r penodiadau allanol megis Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol.

7.2 Cynigiwyd y penodiadau a restrir yn y papur gan y Cynghorydd Mark Young a'u heilio gan y Cynghorydd Jeff Evans.

7.3 **PENDERFYNWYD:**

**i) cadarnhau aelodaeth yr Awdurdod, penodiadau i bwyllgorau a phenodiadau allanol fel y nodir yn y papur a ddarparwyd.**

**8 DYDDIADAU CYFARFODYDD 24/25**

8.1 Dywedodd y Clerc mai bwriad y papur hwn oedd hysbysu'r Aelodau o'r dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd yr Awdurdod, y Panel Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio ar gyfer 2024-25.

8.2 Nodwyd y byddai dyddiad cyfarfod 21 Ebrill 2025 yn disgyn ar ddydd Llun y Pasg ac felly cynigiwyd ei newid i 28 Ebrill 2025.

8.3 **PENDERFYNWYD:**

**i) cytuno ar ddyddiadau cyfarfodydd yr Awdurdod llawn, y Panel Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio, gyda'r cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 21 Ebrill 2025 wedi'i newid i 28 Ebrill 2025.**

**9 CYNLLUN TÂL AELODAU**

9.1 Cyflwynodd y Clerc bapur ar Gynllun Tâl yr Aelodau gyda'r nod o roi gwybod i'r Aelodau am y cyfraddau presennol ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol i aelodau, ac roedd yn cynnwys cais i

gymeradwyo’n ffurfiol y rhestr o daliadau a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25.

9.2 Nodwyd bod cynnydd o 6% wedi bod i gyflog sylfaenol yr holl Aelodau a'r Cadeirydd, a 2.4% i Ddirprwy Gadeirydd yr Awdurdod a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio. Mae'r cyfraddau ar gyfer Aelodau Annibynnol yn aros yr un fath. Mae costau cynhaliaeth a threuliau hefyd yn parhau i fod yn sefydlog.

9.3 Nodwyd y dylai'r cyfeiriad at baragraff 6 gyfeirio at y flwyddyn ariannol 2024-25 yn hytrach na 2023-24.

9.4 Nododd y Trysorydd nad oedd yr Aelodau'n gallu gwneud unrhyw newidiadau i'r ffigurau hyn, ac mai’r unig weithred oedd o fewn eu swyddogaeth oedd naill ai eu derbyn neu eu gwrthod.

9.5 **PENDERFYNWYD:**

- **i) nodi penderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW) mewn perthynas â lwfansau a chydnabyddiaeth ariannol yr aelodau a ddaeth i rym o 1 Ebrill 2024;**
- **ii) rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Clerc ddiweddaru rhestr cydnabyddiaeth ariannol yr aelodau yng nghyfansoddiad yr Awdurdod a gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i restr 2024/25 o bryd i'w gilydd yn ystod blwyddyn y cynghorau, er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau yn aelodaeth Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod), neu o ganlyniad i unrhyw adroddiadau atodol a gyhoeddir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol; a**
- **iii) chymeradwyo'r rhestr o daliadau a wnaed yn ystod 2023/24 fel sy'n ofynnol gan y Panel**

**10 MATERION BRYS**

Nid oedd unrhyw faterion brys i'w hystyried.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall, daeth y cyfarfod i ben.

Daeth y cyfarfod i ben: 09:55